Parti Traeth Coed Duon

Digwyddiadau 2022

Bydd y brif raglen adloniant yn digwydd rhwng 9am a 5pm ddydd Sadwrn 10 Medi. Mae rhai gweithgareddau'n digwydd drwy'r dydd ac eraill yn digwydd nawr ac yn y man drwy gydol y dydd.

Stondinwyr

Mae disgwyl i dros 25 o stondinwyr lanio yn y dref, yn gwerthu popeth, gan gynnwys teisennau bach blasus, jin hyfryd a brownis melys! Heb anghofio'r stondinau elusen, gwybodaeth a chrefft.

Llwyfan Cymunedol Cyngor Tref Coed Duon

Bydd llwyfan cymunedol Cyngor Tref Coed Duon yn croesawu detholiad o gerddorion a pherfformwyr lleol dros y penwythnos. O gantorion a dawnswyr i gerddorion a bandiau, dewch i fwynhau beth sydd gan y gymuned leol i'w gynnig. Rhaglen llawn dop i bobl o bob oed fwynhau!

Traeth trefol

Ni fydd angen mynd yr holl ffordd i'r traeth pan fydd Stryd Fawr Coed Duon yn cael ei thrawsnewid yn draeth bach am y penwythnos. Gyda chadeiriau cynfas a bwcedi a rhawiau ar gael, mwynhewch y diwrnod yn ymlacio yn Nhraeth Trefol Coed Duon!

Cadair gynfas anferth

Neidiwch ar y gadair gynfas anferth a thynnu llun gyda'r traeth trefol yn y cefndir. Rhannwch eich lluniau ar Facebook, Instagram a Twitter @VisitCaerphilly

Sioeau Pwnsh a Jwdi

Bydd sioeau Pwnsh a Jwdi rheolaidd a modelu balŵns yn digwydd drwy gydol y dydd yn ardal y traeth, gyda'r ffefryn Jenny Any Dots.

Reidiau ar gefn asynnod

Mae plant wrth eu bodd â'r anifeiliaid blewog hyn. Reidiau am ddim ar gael drwy'r dydd!

www.mikesdonkeys.co.uk

Falconry UK

Bydd adar ysglyfaethus yn cael eu harddangos i ymwelwyr edrych arnyn nhw, cael ffotograffau gyda nhw a dysgu am ffeithiau a chefndir hynod ddiddorol y creaduriaid rhyfeddol hyn.

Gwefan: www.falconry-uk.org

Facebook: /FALCONRYUK

Tracey's Funky Faces – Paentio Wynebau

Trawsnewidiwch i dywysog, tywysoges, archarwr, neu anifail. Mae gan Tracey's Funky Faces y ddawn i'ch trawsnewid chi i'ch hoff gymeriad, gan ychwanegu lliw a gliter i wneud i chi befrio!

Celf Gliter

Addurnwch eich hunain gyda thatŵs paent dros dro a gliter i'r wyneb.

Reidiau Ffair

Amrywiaeth eang o reidiau ffair i blant bychain sy'n rhoi gwefr i'r rhai ifanc. Bydd cwpl o reidiau i'r plant hŷn hefyd.